**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol ac fe'i cyflwynir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**2 Rhagfyr 2025**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn pennu'r cyrsiau addysg uwch penodol sy’n gymwys at ddibenion adran 89(1) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (“Deddf 2022”). Mae hyn yn galluogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("Medr"), a sefydlwyd gan Ddeddf 2022, i ddarparu cyllid i bersonau penodol mewn perthynas â darparu cwrs o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ddarparu cwrs o'r fath i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru (adran 89(3) o Ddeddf 2022).

1.2 Mae'r cyrsiau addysg uwch a bennir yn y Rheoliadau yn cynnwys, ymhlith rhai eraill, cyrsiau sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan swyddogaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000"). Cynigir y bydd y swyddogaethau hynny'n cael eu diddymu ar 1 Ebrill 2026, a bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi Medr i barhau i ddarparu cyllid ar gyfer y cyrsiau addysg uwch hynny yn y dyfodol. Bydd y Rheoliadau hefyd yn galluogi Medr i ddarparu cyllid ar gyfer cyrsiau eraill nad ydynt yn cael eu cyllido gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 89(3) o Ddeddf 2022 yn galluogi Medr i ddarparu adnoddau ariannol i unrhyw ddarparwr mewn cysylltiad â gwariant yr aed iddo, neu wariant yr eir iddo, gan y darparwr neu gan gorff sy'n cydlafurio at ddiben darparu cwrs cymwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

3.2 Mae corff sy'n cydlafurio yn berson y mae'r darparwr yn bwriadu talu iddo yr holl adnoddau ariannol, neu rai ohonynt, a ddarperir iddo gan Medr o dan adran 89(3), ac sy'n:

- darparu, yn bwriadu darparu neu wedi darparu cwrs cymwys ar ran y darparwr, neu'n
- cydlafurio, yn bwriadu cydlafurio neu wedi cydlafurio â'r darparwr at y diben y darperir yr adnoddau ariannol ar ei gyfer.

3.3 Rhaid i Medr roi ei gydsyniad cyn i'r darparwr wneud taliad i gorff sy'n cydlafurio, gydag adran 109 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cydsyniad Medr.

3.4 Y bwriad yw dod ag adran 89(3), ynghyd ag is-adrannau (4) a (5) sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyrff sy'n cydlafurio, i rym yn llawn ar 1 Ebrill 2026

drwy Orchymyn sydd i'w wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 148(2) o Ddeddf 2022 ("Gorchymyn arfaethedig 2026").

3.5 Mae adran 89(1) o Ddeddf 2022 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch fel cwrs cymwys. Caiff rheoliadau o dan adran 89(1) ddisgrifio cwrs drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs, y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs, neu'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato.

3.6 Ar hyn o bryd, gall Medr, dros dro, ddarparu cyllid penodol ar gyfer cyrsiau addysg uwch o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, yn rhinwedd addasiadau darfodol a gynhwysir yng Ngorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2024 (RhS 2024/806) (Cy.130) (C.51), erthygl 18. Fodd bynnag, dim ond dros dro y mae'r swyddogaethau hyn wedi'u rhoi i Medr gan y bydd y darpariaethau perthnasol yn ac o dan Ddeddf 1992 yn cael eu diddymu gan Ddeddf 2022 maes o law.

3.7 Mae adran 143(5) o Ddeddf 2022 yn cael yr effaith bod rheoliadau a wneir o dan adran 89(1) o Ddeddf 2022 yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru. Felly, mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

3.8 Daw'r Rheoliadau i rym ar 25 Rhagfyr 2025. Bydd y dyddiad dod i rym hwn yn rhoi cyfle i Medr gynnwys cyfeiriad at ei swyddogaeth gyllido yn adran 89(3) wrth ddatblygu ei bolisi ar bwerau cyllido (fel sy'n ofynnol o dan adran 87 o Ddeddf 2022) cyn i adran 89(3) o Ddeddf 2022 ddod i rym.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau yw pennu cyrsiau addysg uwch (cyrsiau cymwys) y bydd Medr yn gallu darparu adnoddau ariannol mewn perthynas â nhw o dan adran 89(3) o Ddeddf 2022. Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau yn pennu cyrsiau addysg uwch sy'n dod o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r Atodlen honno hefyd yn pennu cyrsiau ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr ("BTEC") a nodir o fewn fframwaith prentisiaethau a ddyroddir o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009").

4.2 Diffinnir 'addysg uwch' yn y Rheoliadau ac yn adran 144 o Ddeddf 2022, drwy gyfeirio at Atodlen 6 i'r Ddeddf Diwygio Addysg ("Deddf 1988"), sy'n rhestru disgrifiadau o gyrsiau addysg uwch, ac sy'n cynnwys:

- cyrsiau ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC (paragraff 1(e)),
- cyrsiau i baratoi at arholiad proffesiynol, y mae safon yr arholiad hwnnw'n uwch na safon arholiadau TAG Safon Uwch neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC (paragraff 1(g)), a
- cyrsiau sy'n darparu addysg pan fo safon y cyrsiau hynny yn uwch na safon cyrsiau sy'n darparu addysg i baratoi at arholiadau o'r fath (paragraff 1(h)).

4.3 Mae amrywiaeth o gyrsiau sy'n bodloni'r diffiniad o addysg uwch yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan (ymhlith eraill) swyddogaethau yn Rhan 2

o Ddeddf 2000. Y bwriad yw diddymu'r swyddogaethau hynny yn Neddf 2000 ar 1 Ebrill 2026 drwy Orchymyn arfaethedig 2026. Mae diddymu'r swyddogaethau hyn yn cyd-fynd â chychwyn, drwy Orchymyn arfaethedig 2026, swyddogaethau cyllido Medr, fel y nodir yn Rhan 3 o Ddeddf 2022, mewn cysylltiad â darparu cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant (adran 97), y chweched dosbarth mewn ysgolion (adran 101) a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol (adran 103).

4.4 Rhestrir isod enghreifftiau o gyrsiau addysg uwch sy'n cael eu cyllido gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd:

Prentisiaethau Cymreig

- Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru wedi'i nodi yn Neddf 2009 ar hyn o bryd.

- Mae fframweithiau prentisiaethau yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad gofynnol y mae'n rhaid i brentis eu dysgu i gwblhau prentisiaeth Gymreig ac fe'u cyhoeddir o dan adran 19(1) o Ddeddf 2009. Gall y fframweithiau hyn, a ddiffinnir fel 'fframweithiau Cymreig cydnabyddedig' o dan adran 12(4) o Ddeddf 2009, gael eu tynnu'n ôl o dan adran 19(2) o Ddeddf 2009.

- Cyfeirir yn gyffredinol at brentisiaethau sy'n cynnwys cwrs addysg uwch, er enghraifft cwrs addysg uwch sy'n dod o fewn lefel 4 neu 5 o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), fel 'prentisiaethau uwch' ac maent yn rhan o Raglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru.

- Mae Deddf 2022 yn cynnwys darpariaeth a fydd, maes o law ac yn amodol ar wneud Gorchymyn o dan adran 148 o Ddeddf 2022 gan Weinidogion Cymru, yn diddymu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer prentisiaethau Cymreig fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf 2009. Y bwriad yw y bydd y Gorchymyn, ar yr un pryd, yn dod â darpariaethau Deddf 2022 i rym sy'n ymwneud â chyllido a rheoleiddio prentisiaethau yng Nghymru. Tan hynny, bydd y fframwaith deddfwriaethol fel y'i nodir yn Neddf 2009 yn parhau i fod yn gymwys i Raglen Brentisiaethau Cymru.

Y Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol

- Sefydlwyd y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol gan Weinidogion Cymru yn 2020 ac mae'n cynnig cyrsiau rhan-amser hyblyg am ddim i unigolion cymwys yng Nghymru gyda'r bwriad o'u helpu i ennill sgiliau a chymwysterau ar gyfer datblygu eu gyrfa.

- Mae'r rhaglen yn cynnwys rhestr o 'gyrsiau cymeradwy' y gall darparwyr sy'n derbyn cyllid ddewis eu cynnig. Gall y cyrsiau hyn gynnwys cyrsiau addysg uwch sy'n dod o fewn lefelau 4 neu 5 o FfCChC. Mae cyrsiau neu gymwysterau technegol proffesiynol yn enghreifftiau o'r rhain, y mae rhai ohonynt yn cynnwys arholiad a rhai ohonynt arwain at statws aelodaeth ymarferydd gyda chorff proffesiynol.

Darpariaeth ôl-16

- Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 sy'n cael ei darparu gan ddarparwyr yng Nghymru neu i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru. Mae'r rhaglenni ôl-16 a'r pecynnau dysgu sy'n gymwys i gael cyllid wedi'u nodi yn y 'Fframwaith Cyllido Ôl-16: Canllaw a Chyfeiriadur Rhaglenni'. Mae'r rhaglenni a'r pecynnau hyn yn cynnwys cyrsiau addysg uwch sy'n dod o fewn lefel 4 neu 5 o FfCChC.

4.5 Amcan polisi'r Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan Medr swyddogaethau digonol i ddarparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol, sef y cyrsiau a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Nid yw'r cyrsiau a bennir yn y Rheoliadau wedi'u cyfyngu i'r cyrsiau hynny sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru. Bwriedir i'r trefniadau a'r cytundebau cyllido presennol, gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar Ran 2 o Ddeddf 2000, drosglwyddo o Weinidogion Cymru i Medr ar 1 Ebrill 2026 (drwy Gynllun sydd i'w wneud o dan Atodlen 2 i Ddeddf 2022). Y bwriad yw y bydd Medr yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch newydd yn y dyfodol, a heb y Rheoliadau hyn y risg yw na fydd gan Medr sail statudol ddigonol i ddarparu cyllid ar gyfer cyrsiau o'r fath.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn, ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd â Medr ar ddatblygu'r Rheoliadau hyn, a hefyd wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol mewn perthynas â'u diben.

5.2 Nod y Rheoliadau yw darparu sail statudol ddigonol i Medr ar gyfer darparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r mathau o gyrsiau addysg uwch sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan swyddogaethau statudol y mae disgwyl iddynt gael eu diddymu.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â phennu cyrsiau addysg uwch y caiff Medr ddarparu adnoddau ariannol mewn cysylltiad â nhw o dan adran 89(3) o Ddeddf 2022. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim. O dan yr opsiwn hwn ni wneir unrhyw ddeddfwriaeth, gan greu risg na fyddai gan Medr swyddogaethau cyllido digonol i ddarparu'r sail ar gyfer cyllido'r cyrsiau addysg uwch hyn yn y dyfodol.

- Opsiwn 2 – Deddfu. O dan yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau i bennu'r cyrsiau addysg uwch y caiff Medr eu cyllido o dan adran 89(3) o Ddeddf 2022. Mae'r opsiwn hwn yn gofyn am wneud deddfwriaeth.

### Costau a manteision

<u>Opsiwn 1 – gwneud dim</u>

6.2 Nid oes costau yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

6.3 Byddai gwneud dim yn gost gyfle yn sgil cyfyngu ar barhad cyllid, o 1 Ebrill 2026 ymlaen, mewn cysylltiad â chyrsiau addysg uwch sy'n rhan o raglenni parhaus fel prentisiaethau uwch a'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol.

6.4 Byddai gwneud dim hefyd yn cyfyngu ar ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas â chyrsiau addysg uwch, gan effeithio'n negyddol ar allu dysgwyr yng Nghymru i ymgymryd â chyrsiau o'r fath.

<u>Opsiwn 2 – deddfu</u>

6.5 Nid oes costau ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig ag opsiwn un.

6.6 Bydd unrhyw gostau sy'n deillio o allu Medr i gyllido cyrsiau o dan adran 89(3) o Ddeddf 2022 yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan Medr ynghylch sut i ddyrannu'r cyllid sydd ar gael iddo.

6.7 Mae paragraff 14 o Atodlen 1 i Ddeddf 2022 (sydd wedi bod mewn grym ers mis Medi 2023) yn ei gwneud yn ofynnol i Medr sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaethau, ei fod yn rhoi sylw i'r angen i sicrhau gwerth da mewn perthynas ag adnoddau ariannol a ddarperir o gronfeydd cyhoeddus. Felly, bydd gwerth am arian yn ystyriaeth wrth benderfynu sut i ddyrannu cyllid o dan adran 89 o Ddeddf 2022.

6.8 Nid yw gallu Medr i gyllido'r cyrsiau a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau o dan adran 89(3) wedi'i gyfyngu i senarios penodol (fel y mae cyrsiau a bennir ym mharagraff 2 o'r Atodlen ond yn gallu cael eu cyllido os ydynt wedi'u nodi mewn fframwaith prentisiaeth Gymreig cydnabyddedig). O'r herwydd, gallai Medr ddewis cyllido, o fewn y cyllid sydd ar gael iddo, cyrsiau ychwanegol sy'n dod o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 sy'n bodloni adran 89(3) o Ddeddf

2022. Fel uchod, nid yw'n bosibl pennu'r costau hyn gan eu bod yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan Medr.

6.9 Prif fantais opsiwn 2 yw sicrhau bod swyddogaethau digonol ar gael i Medr i ddarparu cyllid ar gyfer y cyrsiau addysg uwch a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau sy'n rhan o raglenni fel y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol a'r Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau presennol, yn enwedig o ganlyniad i Orchymyn arfaethedig 2026 a'r bwriad i ddiddymu swyddogaethau cyllido Gweinidogion Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf 2000.

Dewis opsiwn

6.10 Ar ôl pwyso a mesur y costau a'r manteision, yr opsiwn a ddewiswyd oedd Opsiwn 2, i wneud rheoliadau o dan adran 89(1) o Ddeddf 2022 sy'n pennu cyrsiau addysg uwch y bydd Medr yn gallu eu cyllido o dan adran 89(3) o Ddeddf 2022.

**Asesu'r gystadleuaeth**

6.11 Mae prawf hidlo’r gystadleuaeth wedi'i gwblhau. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

6.12 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad ôl-weithredu o Ddeddf 2022, a bydd yn parhau i weithio gyda Medr, Estyn, darparwyr a chyrff cynrychioladol.

6.13 Bydd angen cynllun hirdymor i gasglu tystiolaeth o gostau a manteision er mwyn darparu asesiad gwerth am arian pan fydd Deddf 2022 wedi cael ei gweithredu'n llawn. Bwriedir i'r rhain gael eu hadolygu ar gyfnodau o dair blynedd a phum mlynedd.